

**Creu a dysgu cerddoriaeth yng Nghymru:
sgwrs gyda phobl ifanc, Mai-Mehefin 2020**

**Myfyrdodau gan Anna Arrieta, Youth Cymru –
hwylusydd y sesiynau**

A oedd unrhyw ganfyddiadau penodol yn yr adroddiad oeddech chi'n teimlo oedd yn bwysig i Anthem ac Youth Music eu hystyried?

O ddarlenn y canfyddiadau allweddol, hoffwn i dynnu sylw at yr elfen bod y blynyddoedd cynnar a phrofiadau cychwynnol o gerddoriaeth yn hanfodol i sut mae pobl ifanc yn ymwneud â gweithgarwch cerddorol yn nes ymlaen mewn bywyd. Ar draws y sesiynau, roedd y bobl ifanc yn cadarnhau drosodd a thro bod eu profiadau yn yr ysgol, mewn gwaith ieuencid, a chyda'u teuluoedd yn ddylanwad enfawr iddyn nhw. O fy mhrofiad fy hun, cefais i lawer o gyfleoedd yn yr ysgol – cyngherddau'r haf a'r gaeaf lle cefais berfformio, mynediad cyson i'r ystafelloedd cerddoriaeth, bod yn rhan o gorau ac ensembles, ac athrawon a oedd yn esiamplau gwych. Roedd llawer o'r bobl ifanc yn y sesiynau hefyd yn cytuno iddyn nhw gael cynnig y cyfleoedd hyn yn eu blynyddoedd cynnar, ond drwy ganfyddiadau allweddol gallwn ni weld bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc eisiau rhagor o gyfleoedd yn eu hardal ynghyd â gwell darpariaeth cerddoriaeth mewn ysgolion, er enghraifft rhagor o offerynnau'n cael eu cynnig, gwersi cerddoriaeth o well ansawdd, ac ysgolion yn gwerthfawrogi cerddoriaeth mwy fel pwnc. O fy mhrofiad fy hun, er cymaint y cawsom ni ein hannog i chwarae cerddoriaeth yn yr ysgol, ni chafodd cerddoriaeth erioed ei chynnig yn ddewis o yrfa. Er enghraifft, pan fyddem ni'n mynd i ddiwrnodau agored a ffeiriau gyrfaedd, doedd byth stondinau na sefydliadau yn ymwneud â cherddoriaeth yno. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol bod darpariaeth cerddoriaeth mewn ysgolion yn cael ei gwella, gan i ni ganfod ar draws y sesiynau ymgynghori bod ysgolion wedi darparu cyfleoedd i lawer o bobl ifanc, ond i rai pobl ifanc roedd rhwystrau wedi'u codi. Er enghraifft, meddai ychydig o'r bobl ifanc nad oedd modd iddyn nhw ddysgu'r offeryn yr oedden nhw eisiau ei ddysgu. Meddai eraill na roddwyd ystyriaeth i'r ffordd maen nhw'n dysgu, er enghraifft roedd rhai eisiau dysgu mwy o theori cerddoriaeth ac eraill eisiau gwneud mwy o waith ymarferol. I mi, roedd yr ymgynghoriad yn profi bod gwaith ensemble a pherfformiadau yn rhan hanfodol o ddatblygiad cerddorion, a bod gan y rhai na allan nhw gael mynediad i hyn yn eu hardal leol ddiffyg synnwyr o gymuned ac ymgysylltiad â cherddoriaeth. I'r bobl ifanc hyn, mae angen ymyriad mewn ysgolion ac ar-lein fel bod modd iddyn nhw dyfu a datblygu gyda'r anogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.

Lleiafrif bach iawn o bobl ifanc a ddwedodd eu bod yn ystyried cerddoriaeth yn ddewis o yrfa i'r dyfodol. Rwy'n credu mai'r rheswm am hyn oedd am fod stigma ynglŷn â gyrfaedd yn y diwydiannau creadigol, yn arbennig pan ydych chi'n ifanc. Credaf ei bod yn bwysig ein bod ni'n mynd i'r afael â'r stigma ynglŷn â dilyn gyrfaedd creadigol gan fy mod i'n teimlo bod ar bobl ifanc ofn cyfaddef hyn am fod arnyn nhw ofn i eraill eu beirniadu.

Thema ddysgu fawr a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriadau oedd i'r mwyafrif o'r bobl ifanc siarad am eu profiad o berfformio neu ddiffyg profiad o'r fath. Meddai pobl ifanc fod perfformio yn rhoi synnwyr o gyflawniad iddyn nhw. Roedd llawer ohonyn nhw naill ai wedi perfformio yn y gorffennol ac wedi ei fwynhau'n fawr neu eisiau cael y cyfle i berfformio ryw ddydd. Credaf fod cyfleoedd i berfformio yn ffordd amhrisiadwy i ddysgu, datblygu a thyfu fel cerddor.

Nid oedd yn ymddangos bod rhwystrau ariannol yn fater enfawr i'r mwyafrif o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y sesiynau, ond gallai hyn fod ar sail demograffeg y bobl ifanc a ddaeth i'r sesiynau. Credaf ei bod yn bwysig myfyrio ar y ffaith y bydd nifer fawr o bobl ifanc yng Nghymru yn gweld materion ariannol yn rhwystr enfawr i ymgysylltu â cherddoriaeth.

A oedd unrhyw beth y teimloch fod yr adroddiad wedi'i hepgor y mae'n ymddangos bod pobl ifanc yn teimlo'n go gryf yn ei gylch, neu a oedd yn bwysig i grwpiau penodol?

Credaf ei bod yn bwysig pwysleisio nad oedd llawer o bobl ifanc yn creu cerddoriaeth ac yn rhoi eu cerddoriaeth yn gyhoeddus ar blatfformau ffrydio fel Itunes, Spotify, Youtube, ac ati. Pan ofynnais i'r bobl ifanc rannu'r dolenni i'w cyfryngau cymdeithasol a gwranddo ar gerddoriaeth ei gilydd, lleiafrif yn unig wnaeth gymryd rhan yn hyn, gan ddangos i mi bod pobl ifanc yn creu cerddoriaeth ond nad ydyn nhw'n ei

roi'n gyhoeddus. Byddai'n ddiddorol edrych ymhellach ar hyn a gweld beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag rhoi eu cerddoriaeth ar-lein.

Peth arall y teimlaf na chafodd ei bwysleisio ddigon yn yr adroddiad oedd mor aml y cyfeiriodd y bobl ifanc at y dylanwad mae artistiaid eraill yn ei gael arnyn nhw. Er enghraifft, mae gwranddo ar bobl o'r un cefndir â nhw neu o ardal debyg sydd wedi ffynnu a dod yn gerddorion llwyddiannus iawn yn eu gwthio a'u hysgogi i ddilyn eu breuddwydion. Dwedwyd yn nes ymlaen yn yr adroddiad i rai pobl ifanc ddweud y byddai'n fuddiol i gerddoriaeth a gweithwyr proffesiynol eraill sgwrsio gyda nhw a rhoi cyngor iddyn nhw am sut i gael i mewn i'r diwydiant.

Wrth edrych ar y data demograffig, gallwn weld bod yno gynrychiolaeth fwyafrifol wyn yn glir. Credaf ei bod yn bwysig mynd i'r afael â hyn yn yr adroddiad o ran pam fod mwyafrif y bobl ifanc a gymerodd ran yn y sesiynau hyn yn wyn a sut gallai hyn effeithio ar y canlyniadau a'r hyn sydd i ddysgu o'r ymgynghoriad. Byddai'n ddiddorol iawn dysgu o safbwynt pobl ifanc o wahanol gefndiroedd ethnig i weld a wnaethon nhw brofi triniaeth wahanol yn yr ysgol neu a gawson nhw eu gwthio ar hyd llwybrau penodol yn ymwneud â'r diwylliant, neu'n wir na chawson nhw'r cyfle i archwilio genres diwylliannol gwahanol o gwbl.

Ar wahân i'r pwyntiau hyn, fe ddwedwn i bod yr adroddiad wedi dal pob agwedd ar yr ymgynghoriad yn llawn, ei fod wedi'i strwythuro'n dda iawn a'i fod yn cwmpasu pob maes. Mae'r dyfyniadau uniongyrchol gan y bobl ifanc yn eithriadol o berthnasol ac wedi'u defnyddio'n dda.

Beth fyddai eich argymhellion allweddol personol chi ar gyfer Anthem ac Youth Music?

I droi'n ôl at fy mhwynt blaenorol, fy nghanfyddiad i oedd mai cerddoriaeth oedd un o'r pynciau mwyaf cynhwysol ac amrywiol o ran ethnigrwydd a astudiais. Wedi dweud hynny, nid oedd llawer iawn o le a gofod i archwilio llawer o wahanol genres. Cyfeiriwyd at hyn mewn rhai elfennau o'r ymgynghoriad, pan ddwedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu barnu am ymwneud â genres penodol. Gwelais hyn yn ddiddorol iawn am fod fy niwylliant Lladin Americanaidd yn chwarae rhan enfawr yn fy ngherddoriaeth, a thrwy ddylanwad fy nheulu'n unig yr oedd modd i mi archwilio hyn. Byddwn wedi dwlu ar gael y cyfle i allu dysgu am hyn yn yr ysgol. Hyd yn oed pe byddai prosiect ymchwil lle byddai cyfle ichi fel myfyriwr dreulio rhywfaint o amser yn edrych ar genre o'ch dewis chi, credaf y byddai hyn yn eithriadol o fuddiol i lawer o wahanol bobl ifanc o wahanol gefndiroedd a diwylliannau.

Credaf ei bod yn bwysig rhannu fy argymhellion yn ddwy ran. Yn gyntaf, ymgorffori a gwella gwasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion. Er enghraifft, gwerthfawrogi'r pwnc fwy drwyddo draw, gan annog sgysiau ynglŷn â gyrfaoedd mewn cerddoriaeth a darparu mwy o wersi offerynnol a dewis ehangach o offerynnau. Byddai hyn yn hynod o fuddiol i'r rhai nad oes modd iddyn nhw fynychu grŵp cymunedol, gweithgarwch allgyrsiol na chlybiau ieuentid lle mae modd iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau fel cerddor. Yn ail, ar sail y cam rydw i arno yn fy ngherddoriaeth yn bersonol (20 oed, yn ysgrifennu fy ngherddoriaeth fy hun, yn recordio/cynhyrchu, ac yn ei roi yn gyhoeddus ar blatfformau ffrydio), byddwn yn dwlu ar gael y cyfle i gael pecynnau mentora un-i-un nid ar-lein yn llwyr ond gyda mentoriaid a all roi cyngor ar bynciau fel cael i mewn i'r diwydiant, labeli recordio, brandio, hawliau ar gyfer cerddoriaeth, ac arweiniad cyfreithiol sydd wedi'i wneud yn bersonol ar gyfer fy nhaith benodol i.

Credaf ei bod yn hanfodol bod gan bob cyfle sy'n codi o'r ymgynghoriad ffocws ar gynhwysiant a chreu gofod diogel. Wrth siarad â phobl ifanc ag anghenion dysgu, roedd ffocws ar alluogi'r holl bobl ifanc i allu cael mynediad at gerddoriaeth. Credaf y byddai angen ymgynghori a gwaith pellach gydag arbenigwyr yn y maes hwn i edrych ar sut bydd yr holl wasanaethau a chyfleoedd cerddoriaeth yn hygyrch i'r holl bobl ifanc, waeth beth yw eu cefndir, sefyllfa, neu brofiad bywyd.

Y pwynt terfynol y tynnaf sylw ato yw y credaf ei bod yn eithriadol bwysig nad yw'r cyllid hwn yn amcangyfrif yn rhy isel am rôl cerddorion llawrydd, a gweithwyr ieuentid sydd ag angerdd at gerddoriaeth, a defnyddio hyn i ymgysylltu â phobl ifanc a bod yn esiamplau cadarnhaol iddyn nhw. Fyddwn i ddim yn creu cerddoriaeth oni bai am aelodau fy nheulu, athrawon a gweithwyr ieuentid a wnaeth fy ysbrydoli a fy annog drwy gydol fy mlynnyddoedd cynnar. Mae hon yn thema gyffredin drwy gydol yr adroddiad ac mae'n bwysig nodi mai cael y bobl iawn yn y safleoedd hynny, cerddorion, arbenigwyr yn y diwydiant ac ymarferwyr, yw'r hyn sy'n gwella profiadau cerddorol pobl ifanc.

Fel Gweithiwr Ieuentid a Cherddor Ifanc, fe wnes i fwynhau hwyluso'r ymgynghoriadau hyn yn fawr iawn a chael rhannu profiadau am y pwnc yma gyda phobl ifanc ledled Cymru. Diolch.

